



Ein cyf/Our ref LW/00206/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

21 Mawrth 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1258 Gwneud unigolion yng Nghymru sydd ag anableddau cudd yn gymwys am y Bathodyn Glas.

Fel y gwyddoch, mae Cynllun y Bathodyn Glas yn rhoi consesiynau parcio i bobl sydd â heriau difrifol o ran eu gallu i symud, er mwyn iddyn nhw allu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a thrwy hynny, fyw'n annibynnol. Y ddeddfwriaeth sy'n sail iddo yw Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal y cynllun yn eu hardal. Yr is-ddeddfwriaeth yw Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 fel y'u diwygiwyd, sy'n nodi gofynion megis y meini prawf cymhwysedd, ffurf y bathodyn a'r cyfnod cyhoeddi.

Mae'r meini prawf cymhwysedd statudol yn seiliedig ar yr heriau symudedd a geir yn y model cymdeithasol o anabledd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, nid yw cymhwysedd yn gysylltiedig â chyflyrau meddygol sy'n seiliedig ar ddiagnosis gan eu bod yn gallu dangos ystod eang o symptomau.

Cynhaliwyd ymchwil pellach ar gymhwysedd drwy'r wlad ar ran Llywodraeth Cymru yn 2012. Gwnaethom hefyd gynnal nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus i geisio barn ar estyn cymhwysedd. Cymru sydd â chyda'r cymhwysedd mwyaf eang yn y DU ac mae wedi gwneud is-ddeddfwriaeth i estyn cymhwysedd i:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- plant o dan dair oed sydd â chyflwr sy'n golygu bod angen offer meddygol swmpus arnynt neu fod angen iddynt allu mynd i mewn i gerbyd yn gyflym i gael triniaeth achub bywyd;
- y rhai sy'n cael asesiadau penodol fel rhan o'u Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) i asesu eu namau corfforol a gwybyddol;
- y rhai nad ydynt, oherwydd nam gwybyddol, yn gallu ymgymryd â thaith heb gymorth;
- y rhai sydd â namau dros dro sy'n para o leiaf flwyddyn ac sy'n bodloni meini prawf yr asesiad cerdded pellach.

Mae'r cynllun wedi bod yn destun llawer o adolygiadau, adroddiadau, ymgynghoriadau a rheoliadau ers 2002 pan gyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Cynghori'r DU ar Drafnidiaeth Pobl Anabl (DPTAC) ar y cynllun. Cynhaliwyd ymchwil pellach i feini prawf cymhwysedd ar lefel y DU yn 2007 gan Transport and Travel Research Ltd a Rob Smith ac yn 2008 gan Faber Maunsell. Yn ogystal, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil gan Halcrow yn 2012 i ystyried estyn cymhwysedd i bobl â namau gwybyddol.

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Gynllun Gweithredu i foderneiddio Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2010. Gwnaethom hefyd gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ar newid y cynllun yn 2008, 2010, 2011, 2012, 2013 a 2016. Sefydlwyd dau grŵp arbenigol penodol yn 2013 a 2015 i ystyried agweddau gan gynnwys estyn cymhwysedd i bobl â namau gwybyddol ac â namau symudedd dros dro.

Y tro diwethaf y cafodd y ddeddfwriaeth ynghylch cymhwysedd ei diwygio oedd yn 2017 pan gynhwyswyd meini prawf ar namau gwybyddol a dros dro. Mae nifer o gyflyrau penodol hefyd wedi'u hystyried fel meini prawf cymhwysedd posibl drwy ymchwil. Fodd bynnag, mae adroddiadau dilynol wedi nodi na ddylid eu cynnwys yn y meini prawf cymhwysedd gan nad ydynt yn briodol. Er enghraifft

- Mae anymataledd yn y coluddyn a'r bledren yn gofyn am gael mynd i doiled yn hytrach na chael consesiwn parcio a dylai pobl sydd â chyflyrau o'r fath allu cael cardiau 'Dwi ddim yn gallu aros'. Mae'r Cynllun Allweddol Cenedlaethol (NKS) yn golygu bod pobl anabl yn cael defnyddio toiledau cyhoeddus dan glo ledled y wlad. Mae toiledau sydd â chloeon NKS ar gael mewn canolfannau siopa, tafarndai, caffis, siopau adrannol, gorsafoedd bysiau a threnau a llawer o leoedd eraill ledled y wlad. Mudiadau'r trydydd sector sy'n rhannu'r allweddol hyn.
- Pobl â namau symudedd sy'n para llai na 12 mis gan y byddai mwy ohonynt na deiliaid cyfredol y bathodyn gan wneud i'r cynllun golli'i hygrydedd a'i wneud yn anghynaliadwy.

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd apêl am dystiolaeth ar gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru a chytunwyd y byddai adolygiad yn cael ei gynnal gyda'r nodau canlynol:

- Ymchwilio i feini prawf cymhwysedd presennol cynllun y bathodyn glas, ac wrth wneud, ystyried a ddylid ehangu'r meini prawf cymhwysedd.
- Ymchwilio i gadernid y prosesau asesu a ddefnyddir gan awdurdodau lleol.

Wrth aros am argymhellion yr ymchwil, gellid ystyried newid y meini prawf cymhwysedd.

Mae ymestyn cymhwysedd yn fater sensitif sy'n gofyn am gadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion deiliaid cymwys presennol y bathodynau a'r rhai a allai elwa o gael bathodyn, ond na fyddent yn gwbl ddibynnol ar y cynllun i gael at wasanaethau a chyfleusterau.

Yn dilyn [Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Ymchwiliad Cymhwysedd a Gweithredu](#) yn 2019, bydd gwaith ymchwil yn cael ei wneud yn y dyfodol agos. Nod yr ymchwil hon yn gyntaf yw adolygu'r meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer bathodyn glas, ac wrth wneud hynny, ystyried a ddylid ehangu'r meini prawf cymhwysedd yng Nghymru. Yn ail, adolygu cadernid y prosesau asesu y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau ar eu cyfer i awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r cynllun.

Gan obeithio bod yr wybodaeth uchod yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lee', positioned above the printed name and title.

Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change